

Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-EM-0341-18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

15 Chwefror 2018

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Ionawr yn ymwneud â gwaith dilynol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr Ymchwiliad i Waith Ieuenctid. Roeddwn innau hefyd yn croesawu'r cyfarfod gyda chi ym mis Tachwedd ac rwy'n ddiolchgar i chi am amlinellu dull gweithredu arfaethedig y Pwyllgor. Rwyf hefyd yn croesawu ymrwymiad y Pwyllgor i graffu'n barhaus ar ganfyddiadau'r ymchwiliad hwn, sy'n helpu i sicrhau proffil gwaith ieuenctid a'r broses o ddatblygu polisi cryf i gefnogi'r gwaith o'i gyflawni.

Mae'n bleser gennyf allu darparu diweddariad llawn ar y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion y Pwyllgor ac, ar ôl imi gael cyfle i ystyried amrywiaeth o dystiolaeth, gallaf bennu fy argymhellion ar gyfer cyflawni rhaglen waith uchelgeisiol. Mae'r tabl a atodir yn Atodiad A yn dangos manylion y cynnydd a wnaed a'r camau nesaf. Fodd bynnag, yn gryno, ac mewn ymateb i ddiweddariadau penodol y gofynnwyd amdanynt yn eich llythyr, gallaf ddarparu'r canlynol:

'Ymestyn Hawliau' a'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid, a sefydlu'r Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid

Gofynnodd cyn Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes i Margaret Jervis, MBE DL, adolygu Ymestyn Hawliau a, thrwy wneud hynny, gwneud argymhellion ar y ffordd ymlaen ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae Margaret wedi cwblhau ei gwaith, mewn partneriaeth â phobl ifanc a rhanddeiliaid ar draws y sector, ac wedi cyflwyno adroddiad i mi. Mae'r adroddiad yn cynnwys naw argymhelliad ac mae fy swyddogion, gyda chymorth y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid, eisoes wedi dechrau ymchwilio i sut y gellid ymgorffori'r egwyddorion a nodwyd gan Margaret mewn arferion yn y dyfodol. Yr hyn sy'n glir i mi o waith Margaret yw, er iddo gael ei gwblhau yng nghyd-destun ac ethos Ymestyn Hawliau, sydd â goblygiadau ar gyfer rhwydwaith eang o wasanaethau cymorth ieuenctid amrywiol, mae'n ymdrin yn bennaf â sicrhau dull strategol, newydd o ymdrin â gwaith ieuenctid. Felly, dyma'r maes rwy'n bwriadu canolbwyntio arno o ran ein hymdrechion cychwynol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw'n fwriad gennyf gychwyn proses o ddiweddarau'r canllawiau statudol ar unwaith. Yn gyntaf, mae'n rhaid inni sefydlu dull strategol gyflawni gwaith ieuenctid yng Nghymru sydd, yn fy marn i, yn chwarae rôl hanfodol o ran sicrhau canlyniadau i'n pobl ifanc. Cynhaliwyd adolygiad o'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid gyfredol gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, a Susanne Rauprich OBE, ac mae'r canfyddiadau yn glir: cafodd pethau eu cyflawni ond collwyd gormod o gyfleoedd. Rwy'n bwriadu cyhoeddi eu hadroddiad maes o law gan ei fod yn darparu gwersi hanfodol wrth inni gychwyn ar ein camau nesaf: datblygu Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd ar gyfer Cymru.

Fel y nodwyd yn Atodiad A rwyf wedi gofyn i'm swyddogion, mewn partneriaeth â'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid, ddechrau cwmpasu'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth newydd hon ar unwaith. Caiff ei chyd-greu gyda phobl ifanc a'r sector ac mae'n nodi'r camau sydd eu hangen i gyflawni gweledigaeth hirdymor ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Wrth gyflawni'r weledigaeth hirdymor hon, mae'n rhaid iddi aros yn ddigon hyblyg er mwyn caniatáu iddi allu ymateb i dirweddau cymdeithasol ac economaidd sy'n newid, felly bydd yn destun proses gynllunio ac adolygu flynyddol fanwl. Byddaf yn gofyn i'm swyddogion roi diweddariadau rheolaidd imi ar gynnydd a byddaf yn parhau i gadw llygad fanwl ar y gwaith hwn i sicrhau y caiff ei gyflawni'n amserol.

Cynhwysir amserlen ddrafft ar gyfer sicrhau bod y strategaeth newydd hon yn cael ei chyflawni ar ddiwedd Atodiad A. Fodd bynnag, rwy'n ymrwymedig i wrando ar farn pobl ifanc a'r sector, gan gynnwys gwrandao ar gyngor y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid. O ystyried hyn, bydd y gwaith o ddatblygu'r strategaeth yn broses ailadroddol, gan ymateb i dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a'i haddasu fel y bo'n briodol. Mae'r amserlen ddrafft hefyd yn nodi'r terfynau amser arfaethedig ar gyfer penodi Bwrdd Interim ar gyfer Gwaith Ieuenctid. Ymrwymodd cyn Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes i Fwrdd Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid ac rwy'n bwriadu cyflawni'r cylch gwaith ehangach hwn yn y tymor hwy. Fodd bynnag, fel y nodwyd gennyf, fy mwiad yw sicrhau dull gweithredu strategol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru yn gyntaf. Caiff y Bwrdd, felly, ei benodi dros dro yn y lle cyntaf a gofynnir iddo flaenoriaethu gwaith ieuenctid. Bydd yn gwneud hyn yng nghyd-destun y rhwydwaith ehangach o wasanaethau cymorth ieuenctid a thrwy wneud hynny, byddant yn dechrau ystyried angen, a chylch gwaith posibl, bwrdd neu gorff a fydd yn gyfrifol am y sbectwm mwy hwn o wasanaethau yn y dyfodol.

Asesiadau o Ddigonolrwydd Gwaith Ieuenctid

Mewn ymateb i'r argymhelliad penodol hwn sefydlodd y swyddogion weithgor gyda chynrychiolwyr o'r sectorau statudol a gwirfoddol. Ei nod oedd ymchwilio'n fanylach i werth posibl asesiadau digonolrwydd ar gyfer gwaith ieuenctid. Daeth y grŵp i'r penderfyniad:

- bod angen i un ddogfen strategol genedlaethol drosfwaol fod ar waith sy'n nodi cyfeiriad y polisi ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru, ac y dylai adran o'r strategaeth drosfwaol hon ddisgrifio beth yw Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid "digonol";
- bod angen cysylltu set o Safonau â'r ddogfen strategol drosfwaol hon, ac y byddent yn feincnodau penodol ar gyfer digonolrwydd; a
- nes bod y rhain ar waith, ni ddylid cyflwyno asesiadau digonolrwydd ar gyfer gwaith ieuenctid.

Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i'r cysyniad o gynnal asesiadau digonolrwydd yng nghyd-destun gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, gan ystyried penderfyniadau'r grŵp, mae'n amlwg bod yn rhaid iddynt fod yn ystyrion ac nid yn haen ychwanegol o fiwrocratiaeth yn unig. Felly, cânt eu cynllunio, eu datblygu, eu gweithredu a'u hadolygu mewn partneriaeth â phobl ifanc a'r sectorau statudol a gwirfoddol. Mae'n rhaid gwneud hyn yn ystod y broses o ddatblygu ein Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd ar gyfer Cymru er mwyn sicrhau cyfatebiaeth. Dylai nod yr asesiadau fod yn ddatblygiadol eu natur h.y. ble rydym ni nawr, ble mae angen i ni fod, a sut byddwn yn cyrraedd yno. Felly, dylent gefnogi proses hunanwerthuso gonest a chynllunio cryf mewn partneriaeth.

Datblygu fframwaith atebolrwydd ar gyfer defnydd awdurdodau lleol o gyllid ar gyfer gwaith ieuenctid drwy'r grant cynnal reffeniw

Cadarnhaodd fy rhagflaenydd fod y Grant Cynnal Refeniw yn ffrwd gyllido heb ei neilltuo y gellid ei gwario yn ôl disgrisiwn awdurdodau lleol ac yn unol â'u hanghenion/blaenoriaethau lleol. Yn ymarferol, byddai'n anodd iawn dadansoddi lefelau'r Grant Cynnal Refeniw a ddyrennir yn benodol er mwyn cyflawni gwaith ieuenctid. Mae hyn am fod ffrydiau cyllido yn aml yn cael eu cyfuno i gyflawni prosiectau, a dyrennir adnoddau mewn dull sy'n cefnogi hyblygrwydd amrywiaeth o wasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Mae yna hefyd y mater sy'n ymwneud â 'digonolrwydd darpariaeth', ac nid oes diffiniad cytûn ar ei gyfer ar hyn o bryd. Fel y nodwyd gennyf, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion weithio gyda phobl ifanc a rhanddeiliaid gwaith ieuenctid i ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer gwaith ieuenctid. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, byddaf yn gofyn iddynt ddod i gytundeb ar y cyd ar yr hyn sy'n cynrychioli darpariaeth gwaith ieuenctid ddigonol i bobl ifanc. Gyda hynny ar waith, bydd y strategaeth newydd yn nodi'r camau sydd eu hangen ar bob lefel o'r system i gyflawni'r ddarpariaeth hon, yn ogystal â diffinio trefniadau atebolrwydd priodol.

Sicrhau mynediad i Erasmus+

Yn bersonol rwy'n ymwybodol o'r manteision a'r cyfleoedd sydd ar gael i Gymru yn sgil mynediad i Erasmus+ a byddaf yn parhau i hyrwyddo dull gweithredu sy'n rhoi ein blaenoriaethau wrth wraidd y mater. Rydym yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU am gyfranogiad parhaus yn y rhaglen Erasmus+, a Rhaglenni UE eraill sy'n arbennig o bwysig i Gymru, ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

Yn gryno, rwy'n croesawu'r cyfle i roi diweddariad ichi ar y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion y Pwyllgor a'r gwerth ychwanegol a ddaw yn sgil y broses graffu hon. Yn fuan, byddaf yn gwneud cyhoeddiad sy'n amlinellu'r camau a nodwyd yn y llythyr hwn ac yn darparu mwy o fanylion. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at gael diweddariad ar eich gwaith ymgynghori gyda rhanddeiliaid gwaith ieuenctid ar yr adeg briodol.

Yn gywir



Eluned Morgan AC/AM

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning

	Argymhelliad y Pwyllgor	Derbyniwyd/derbyniwyd mewn egwyddor	Safle cyfredol.
1	Dylai'r Gweinidog adolygu'r Strategaeth Genedlaethol ac adnewyddu'r canllawiau statudol mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a phobl ifanc. Rhaid i gynllun gweithredu manwl ar gyfer gweithredu, gan gynnwys amserlenni, gael ei ddatblygu ochr yn ochr â strategaeth newydd	Derbyniwyd	<p>Rydym wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Comisiynu Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, a Susanne Rauprich OBE, i adolygu effaith y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuentid. Derbyniwyd adroddiad terfynol ac mae'n cael ei baratoi i'w gyhoeddi. Llywiwyd y gwaith hwn gan rhanddeiliaid a phobl ifanc. • Comisiynwyd Margaret Jervis, MBE DL, i adolygu Ymestyn Hawliau. Cyflwynwyd adroddiad terfynol ac mae'n cael ei baratoi i'w gyhoeddi. Llywiwyd y gwaith hwn gan rhanddeiliaid a phobl ifanc. • Comisiynwyd y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuentid (YWRG), sy'n cynrychioli'r sector gwaith ieuentid, gan ddarparu cyngor i Lywodraeth Cymru, i adolygu argymhellion Margaret a chynnig ffordd ymlaen. <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dechrau datblygu Strategaeth Gwaith Ieuentid uchelgeisiol newydd ar unwaith. • Sicrhau bod gweledigaeth hirdymor yn cael ei hymgorffori o fewn y strategaeth, gyda phrosesau cynllunio blynyddol manwl, hunanwerthuso, ac adolygu. • Cyd-adeiladu'r strategaeth gyda phobl ifanc a rhanddeiliaid ar bob lefel yn y system. • Cyhoeddi Adolygiad Margaret, 'Adolygiad o Effaith y Strategaeth Gwaith Ieuentid', ac adolygiadau cysylltiedig o gyllid grant • Ymgorffori gwersi a ddysgwyd, gan gynnwys o Ymchwiliad y Pwyllgor, ochr yn ochr â thystiolaeth ehangach yng Nghymru, y DU a thu hwnt. • Seilio ein dulliau gweithredu yn gadarn o fewn Confensiwn y

	Argymhelliad y Pwyllgor	Derbyniwyd/derbyniwyd mewn egwyddor	Safle cyfredol.
			<p>Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ailsefydlu Cynnig/Siarter Gwaith Ieuencid wrth wraidd y strategaeth newydd. • Cynnwys ystyriaeth o'r mater 'digonolrwydd darpariaeth', a rôl cyrff eraill fel darparwyr gwasanaeth, rheoleiddwyr, awdurdodau lleol, a Llywodraeth Cymru wrth sicrhau atebolrwydd cadarn. • Datblygu ein hymagweddau yng nghyd-destun ac ethos Ymestyn Hawliau, gyda'r bwriad o ystyried statws canllawiau statudol cyfredol, ar ôl i'r dull gweithredu strategol ar gyfer sicrhau gwaith ieuencid gael ei ddatblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid. • Sefydlu Bwrdd Gwaith Ieuencid Interim i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth, gwerthuso dulliau gweithredu ar gyfer dosbarthu adnoddau, cynrychioli llais y sector, a darparu cyngor i Lywodraeth Cymru. • Cyhoeddi amserlen sy'n nodi sut/pryd y caiff hyn ei gyflawni.
2	<p>Dylai'r Gweinidog gynnal trafodaethau brys â'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuencid Gweinidogol i fynd i'r afael â'r pryderon o fewn y sector ynghylch diffyg ymgysylltiad gan Lywodraeth Cymru.</p>	Derbyniwyd	<p>Rydym wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal trafodaethau brys ar lefel Weinidogol gyda'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuencid. • Diweddarau cylch gwaith y grŵp ac wedi dechrau ymestyn eu haelodaeth. • Cydnabod y rôl allweddol y mae'n ei chwarae wrth gefnogi'r sector a Llywodraeth Cymru wrth gyflawni a gweithredu'r polisi. • Rhoi'r dasg iddo o ystyried yr adroddiad drafft a gynhyrchwyd gan Margaret Jervis, MBE DL. • Defnyddio ei arbenigedd a'i wybodaeth i lywio'r gwaith o ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru. • Derbyn adborth cadarnhaol gan y Grŵp Cyfeirio Gwaith

	Argymhelliad y Pwyllgor	Derbyniwyd/derbyniwyd mewn egwyddor	Safle cyfredol.
			<p>leuenctid ar y dull gweithredu newydd hwn.</p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parhau i ddefnyddio'r Grŵp Cyfeirio Gwaith leuenctid yn strategol, gydag ymgysylltiad rheolaidd gan Lywodraeth Cymru i lywio'r gwaith o ddatblygu dulliau gweithredu. • Comisiynu'r Grŵp i ddechrau gwaith i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu Strategaeth Gwaith leuenctid newydd ar gyfer Cymru. • Sicrhau aliniad â'r Bwrdd Gwaith leuenctid Interim arfaethedig, wrth iddo ddatblygu a gweithredu.
3	Dylai fod llwybr clir ac ystyrion i bobl ifanc fod yn bartneriaid cyfartal wrth ddatblygu gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru. Dylai hyn gael ei ddatblygu gan y Gweinidog, rhanddeiliaid a phobl ifanc.	Derbyniwyd	<p>Rydym wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau yr ymgysylltwyd ac yr ymgynghorwyd â phobl ifanc fel rhan o'r 'Adolygiad o Effaith y Strategaeth Gwaith leuenctid'. • Sicrhau yr ymgysylltwyd ac yr ymgynghorwyd â phobl ifanc fel rhan o adolygiad Margaret Jervis' o Ymestyn Hawliau. • Comisiynu Plant yng Nghymru i gynnal darn penodol o waith gyda phobl ifanc i lywio gwaith Margaret. • Cynnal trafodaethau gyda'r Grŵp Cyfeirio Gwaith leuenctid i archwilio sut y gall pobl ifanc lywio'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gwaith leuenctid uchelgeisiol newydd ar gyfer Cymru. <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys pobl ifanc yn y broses o gyd-greu'r Strategaeth Gwaith leuenctid newydd ar gyfer Cymru. • Ystyried y rôl y byddant yn ei chwarae wrth gynllunio, cyflawni a monitro gwaith ieuenctid o fewn y Strategaeth newydd a chyfleu hynny.

	Argymhelliad y Pwyllgor	Derbyniwyd/derbyniwyd mewn egwyddor	Safle cyfredol.
			<ul style="list-style-type: none"> Datblygu cynllun ymgysylltu, mewn partneriaeth â phobl ifanc a rhanddeiliaid, i sicrhau bod yr argymhelliad hwn yn parhau i gael ei fodloni'n llawn yn y dyfodol.
4	Dylai'r Gweinidog gyflwyno model cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid, sy'n cwmpasu darpariaeth statudol a gwirfoddol. Dylai'r Gweinidog adrodd i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.	Derbyniwyd	<p>Rydym wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> Comisiynu Margaret Jervis i gynnal adolygiad o Ymestyn Hawliau, a oedd yn cynnwys rhoi ystyriaeth i 'fodel cenedlaethol' sy'n cwmpasu darpariaeth statudol a gwirfoddol. Comisiynu Adolygiad o Effaith y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid sy'n gwneud argymhellion ar y ffordd ymlaen. Ystyried y canfyddiadau hyn sy'n cynnig 'modelau' posibl ar gyfer cyflawni yn y dyfodol. <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Dechrau ar y gwaith o ddatblygu Strategaeth Gwaith Ieuenctid uchelgeisiol newydd ar unwaith, gan gynnwys ystyried model cyflawni priodol. Penodi Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim, y bydd ei gylch gwaith yn cynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth newydd, a darparu cyngor ar ddulliau cyflawni priodol. Ymestyn cylch gwaith ac aelodaeth y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid, gan ymestyn gwahoddiad i gynrychiolwyr strategol o awdurdodau lleol, gan sicrhau bod y strategaeth newydd yn cydbwysu uchelgeisiau a'r gallu i gyflawni yn y cyd-destun cyfredol. Sicrhau ein bod yn gwrandao ar farn darparwyr statudol a gwirfoddol fel rhan o'r gwaith datblygu.
5	Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis i	Derbyniwyd mewn	Rydym wedi:

	Argymhelliad y Pwyllgor	Derbyniwyd/derbyniwyd mewn egwyddor	Safle cyfredol.
	gyhoeddi'r adroddiad hwn ar sut y mae'n bwriadu asesu i ba raddau y mae ei ymrwymiad i ddarpariaeth ddwyieithog mynediad agored, cyffredinol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn cael ei gyflawni.	Egwyddor	<ul style="list-style-type: none"> • Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor a chydabod bod tirwedd gwaith ieuenctid yn newid yng nghyd-destun hinsawdd ariannol heriol. • Derbyn y rôl y gallai 'Asesiadau Digonolrwydd' ei chwarae wrth asesu i ba raddau y mae darpariaeth fyd-eang, mynediad agored, yn Gymraeg a Saesneg, yn cael ei chyflawni. • Dechrau archwilio'r rôl y bydd 'Asesiadau Digonolrwydd' yn ei chwarae yn y dyfodol. <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgorffori'r syniad o 'ddigonolrwydd darpariaeth' a'r asesiad ohono o fewn y Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd ar gyfer Cymru. • Ailddatgan ein hymrwymiad i'r rôl y gall gwaith ieuenctid ei chwarae wrth gefnogi pobl ifanc i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg. • Ymgysylltu â phobl ifanc wrth ddatblygu'r strategaeth newydd i ddatblygu dealltwriaeth gyfredol o'u hanghenion mewn perthynas â'r math o wasanaethau ieuenctid yr hoffent gael mynediad iddynt, yn yr iaith a ffefrir ganddynt.
6	O fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog gomisiynu ymarfer i fapio darpariaeth gwaith ieuenctid gwirfoddol ledled Cymru. Dylid adnewyddu'r ymarfer o bryd i'w gilydd.	Derbyniwyd mewn Egwyddor	<p>Rydym wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried yr ymarfer i fapio darpariaeth gwaith ieuenctid gwirfoddol a gynhaliwyd gan CWVYS (2015) mewn perthynas â'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, a Corris Bright (2016). • Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gan nodi efallai nad yw ymarfer mapio cenedlaethol yn briodol o ystyried y cyd-destun sy'n newid yn gyflym wrth i wasanaethau newid ac addasu. • Nodi ein hymrwymiad i'r cysyniad o 'ddigonolrwydd darpariaeth' a'r asesiad ohono wrth gynllunio, cyflawni a monitro gwasanaethau ieuenctid.

	Argymhelliad y Pwyllgor	Derbyniwyd/derbyniwyd mewn egwyddor	Safle cyfredol.
			<p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgorffori'r syniad o 'ddigonolrwydd darpariaeth' a'r asesiad ohono o fewn y Strategaeth Gwaith Ieuencid newydd ar gyfer Cymru. Er mwyn sicrhau hyblygrwydd o fewn tirwedd sy'n datblygu, dylai unrhyw asesiad roi ystyriaeth i ddarpariaeth statudol a gwirfoddol ar lefel leol yn hytrach na chenedlaethol.
7	<p>Dylai'r Gweinidog sicrhau bod asesiadau o ddigonolrwydd gwaith ieuencid yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol fel rhan o'r asesiadau o anghenion y boblogaeth ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.</p>	<p>Derbyniwyd mewn egwyddor</p>	<p>Rydym wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbyn rôl bosibl 'Asesiadau o Ddigonolrwydd' yn y gwaith o gynllunio, cyflawni a monitro darpariaeth gwasanaethau ieuencid. • Sefydlu gweithgor ym mis Tachwedd 2017 i gadarnhau sut y gallai'r rhain weithio yng Nghymru, gan ddysgu o ddulliau a roddwyd ar waith yn y sector Chwarae. • Pennu bod gofyniad ar gyfer asesu er mwyn sicrhau bod angen y gwasanaethau a ddarperir o fewn ardal awdurdod lleol, bod y gwasanaethau hynny o'r maint cywir ac yn cael eu darparu gan y sefydliad mwyaf perthnasol. • Ymchwilio i sut beth fyddai asesiad a dod i'r canlyniad, yn absenoldeb gweledigaeth a Strategaeth Gwaith Ieuencid hirdymor newydd, sy'n mynd â ni y tu hwnt i 2018, nad yw'n bosibl cadarnhau dull i'w roi ar waith ar unwaith. <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgorffori'r syniad o 'ddigonolrwydd darpariaeth' a'r asesiad ohono o fewn y Strategaeth Gwaith Ieuencid newydd ar gyfer Cymru. • Cyd-greu'r Strategaeth mewn partneriaeth â phobl ifanc a rhanddeiliaid. • Sicrhau cytundeb ar draws y sector o ran y defnydd o Asesiadau o Ddigonolrwydd wrth gynllunio, cyflawni a monitro

	Argymhelliad y Pwyllgor	Derbyniwyd/derbyniwyd mewn egwyddor	Safle cyfredol.
			darpariaeth gwasanaethau ieuenctid fel rhan o'r strategaeth newydd.
8	Dylai'r Gweinidog ddatblygu fframwaith atebolrwydd ar gyfer defnydd awdurdodau lleol o arian ar gyfer gwaith ieuenctid drwy'r grant cynnal refeniw. Dylai'r fframwaith gynnwys sancsiynau os na chyflawnir y canlyniadau	Derbyn mewn Egwyddor	<p>Rydym wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cadarnhau bod y Grant Cynnal Refeniw yn ffrwd gyllido heb ei neilltuo y gellid ei gwario yn ôl disgresiwn awdurdodau lleol ac yn unol a'u hanghenion a blaenoriaethau lleol. • Cadarnhau nad yw'n bosibl ar hyn o bryd nodi faint gaiff ei wario ar waith ieuenctid, o ganlyniad i Gronni Cyllidebau ar draws gwasanaethau ar lefel leol, na rhagfynegi'r swm chwaith. • Adolygu ein ffrydiau cyllid grant cyfredol i ystyried sut y gallant gefnogi'r canlyniadau a ddymunir yn well mewn perthynas â gwaith ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid. • Dechrau rhoi newidiadau ar waith i ddulliau cyllid grant, gan sicrhau mwy o ffocws ar effaith, yn hytrach na chanlyniad. • Ymchwilio i fframwaith canlyniadau ar gyfer gwaith ieuenctid yng nghyd-destun y strategaeth bresennol. <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi adolygiadau o'r Grantiau Gwaith Ieuenctid. • Parhau i ddysgu oddi wrthynt drwy eu hadolygu'n rheolaidd. • Sefydlu Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd, a chynghori ar ddulliau o ddefnyddio adnoddau yn briodol, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol. • Sicrhau cytundeb ar draws y sector i ddefnyddio 'Aseidiadau Ddigonolrwydd' yn y gwaith o gynllunio, cyflawni a monitro darpariaeth gwaith ieuenctid fel rhan o'r strategaeth newydd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried eu rôl o fewn fframwaith atebolrwydd newydd ar gyfer gwasanaethau ieuenctid ar draws awdurdod lleol a darpariaeth wirfoddol.

	Argymhelliad y Pwyllgor	Derbyniwyd/derbyniwyd mewn egwyddor	Safle cyfredol.
9	Dylai'r Gweinidog archwilio parhad cyllid posibl Erasmus+, os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu peidio â gwneud hynny,	Derbyniwyd mewn egwyddor	<p>Rydym wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cadarnhau ein hymrwymiad tuag at ddull yn seiliedig ar dystiolaeth tuag at adael yr UE. <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parhau i hyrwyddo dull gweithredu sy'n rhoi lle canolog i flaenoriaethau Cymru, gan ymateb i flaenoriaethau'r DU gyfan ar yr un pryd. • Parhau i drafod â'n cymheiriaid o fewn Llywodraeth y DU, gan ymdrin â rôl cyllid Erasmus+ yng nghyd-destun y DU
10	Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y sector gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol yn chwarae rhan ganolog yn y broses o ddiwygio'r cwricwlwm.	Derbyniwyd	<p>Rydym wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cadarnhau cynrychiolaeth o'r sector statudol a gwirfoddol ar y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol ar gyfer Diwygio Addysg. • Ymgysylltu â'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid (gyda chynrychiolwyr o'r sectorau statudol a gwirfoddol) gyda'r broses o Ddiwygio'r Cwricwlwm. <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parhau i sicrhau dulliau priodol o sicrhau bod y sector gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol yn chwarae rôl ganolog yn y broses o ddiwygio'r cwricwlwm. • Ystyried a mynegi'r cysylltiadau a'r aliniad rhwng addysg ffurfiol a gwaith ieuenctid yn y Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd ar gyfer Cymru.

Atodiad A

Amserlen Ddrafft

	Chwefror	Mawrth	Ebrill	Mai	Mehafin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr
Digwyddiadau		Cynhadledd Gwaith leuenctid			Wythnos Gwaith leuenctid Gwobrau Gwaith leuenctid						Lansio'r Strategaeth Gwaith leuenctid Newydd
Cyhoeddiadau		Cyhoeddi'r gwaith adolygu a gynhaliwyd, gan gynnwys y grantiau a'r Strategaeth Gwaith leuenctid gyfredol 2014-2018									Cyhoeddi'r Strategaeth Gwaith leuenctid Newydd
Bwrdd Interim		Cyhoeddi'r broses o recriwtio Cadeirydd ar gyfer y Bwrdd Gwaith leuenctid			Penodi Cadeirydd i'r Bwrdd Gwaith leuenctid Interim	Nodi Aelodaeth y Bwrdd Interim	Penodi Aelodau i'r Bwrdd Interim				
Strategaeth Gwaith leuenctid Newydd	Cwmpasu [Grŵp Cyfeirio Gwaith leuenctid]	Ystyried tystiolaeth [Grŵp Cyfeirio Gwaith leuenctid] Ymgysylltu cychwynnol â phobl ifanc a'r sector	Rhanddeiliaid a mapio polisi	Cyd-greu Strategaeth gwaith leuenctid newydd ar gyfer Cymru. I'w datblygu mewn partneriaeth â phobl ifanc a rhanddeiliaid.				Cwblhau'r strategaeth ddrafft	Cwblhau'r strategaeth	Lansio'r strategaeth	